Y Degwm yng Ngwytherin

Dydd 19 May 1893 Ymweliad y beili a'r Gors

Y DEGWM YNG NGWYTHERIN. Yn Llys Man ddyledion Llanrwst, ddydd Gwener, o flaen Syr Horatio Lloyd, barnwr, y Parch J. M. Price, ficer Gwytherin, a achwynai o herwydd i feili y Llys Sirol fethu attafaelu am arian degwm ar fferm Mr Thomas Williams, y Gors, Gwytherin. Y swm dyledus ydoedd pedwar swllt. Mr W. Roberts, y prif feili, a ddywedodd mai lle tlawd ar ben mynydd ydoedd y Gors, ac yn ol tystiolaeth ei gyd-swyddog a fu yno nid oedd yno ddim ar y tyddyn. Yr oedd ar y gŵr parchedig eisio gwybod beth oedd i'w wneud eto. Barnodd ei Anrhydedd fod yn rhaid myned yno eilwaith, ac atafaelu; ond os methid y tro aesaf y byddai yn rhaid arfer moddion gwahanol.

Ymweliad y beili a Llawr y Cwm

Fe benderfynodd y beili ymweld a fferm Llawr y Cwm ar adeg braidd yn anffodus. Pan gyrhaeddodd yno roedd yr hen wraig a drigai yno ar ganol lladd mochyna trin y cig. Curodd y beili ar y drws i hawlio ei arian ond pwy a welodd yn agor y drws ond clamp o wraig ffyrnig yr olwg gyda cyllell fawr waedlyd yn ei llaw. Pan welodd hi'r beili dyma hi'n cythru amdanno gan weiddi, "Ti di'r nesa!". Rhedodd y beili oddiyno am ei fywyd.

RHYFEL Y DEGWM YNG NGWYTHERIN

Ymweliad y beiliaid a Ty'n Ddôl

Tua deg o'r gloch ar fore ddydd Mawrth ar yr 2il o Ebrill 1895 cyrhaeddodd dau feili i fuarth Ty'n Ddôl, Gwytherin. Eu bwriad oedd attafeulu buwch yn iawndal am y degwm yr oedd William Jones wedi wrthod ei dalu. er mwyn cynhaliaeth y rheithor ar y pryd, sef John Price. Felly dyfarnwyd yng nghwrt Llanrwst bod rhaid gyrru y ddau feili allan i hawlio naill a'i yr arian neu ei werth, sef yn ei meddyliau nhw, un o'i wartheg. Y swm ddyledus oedd £3.12s.3c. gyda hanner coron o gostau yn ychwanegol. Teimlad William Jones, a oedd bron yn 80 oed, oedd nad oedd ef erioed wedi derbyn dim gan y rheithor, yn dymhorol nac yn ysbrydol, am yr holl arian roedd o wedi ei dalu ar ffurff degwm dros yr holl flynyddoedd.

Dewisodd y beilïaid y diwrnod arbennig yma i wneud eu cais oherwydd eu bod yn gwybod yn iawn ei bod yn ddiwrnod marchnad yn Llanrwst, a na fuasai y perchennog yn debygol o fod adref. Felly gyda holl urddas ac awdurdod y gyfraith wrth eu cefnau aeth y ddau i gyro ar ddrws Ty'n Ddôl gan weiddi, "Rydan ni wedi dod yma i nôl y degwm, ac os na thalwch chi, mi awn a buwch i ffwrdd". Agorwyd y drws gan Mrs. Pierce, merch Mr. William Jones, ac ychwanegodd y beili gan dalsythu, "Waeth i chi dalu na gwneud *row* - talu fydd raid i chi, wyddoch". Atebodd Mrs Pierce "Wel, dalla i wneud dim yn y mater. Nid yw fy nhad na'm brawd yma ar hyn o bryd". Ateb y beili i hynny oedd "Wel, 'does dim help am dani; rhaid i mi fynd ag un o'r buchod ymaith."

"Rhoswch funud", ebai rhywun a ddigwyddai fod yn y tŷ ar y pryd, gan wneud ei ymddangosiad – "rydw i wedi hen gynefino ag ymweliadau gŵyr tebyg i chwi. A oes gennych hawl i fynd a'r fuwch i ffwrdd heddiw, a ch'ithau heb attafaelu arni?" Wedi peth drafod, gwrthododd Mr. Jones dalu;

rhoddwyd ef yn y cwrt, ac oddiyno, derbyniodd hysbysrwydd yr attafaeliad ar eiddo iddo, os na thalai o fewn yr amser pennodedig. Yn unol â'r drefn arferol, disgwylid y beili yno, ond nid i gymryd y fuwch oddiyno ar unwaith; ond yn gyntaf oll, i attafaelu arni. (Gwaith y beili yn amlygu ei fwriad i gymeryd yr anifail cyn attafaelu arno wnaeth i'r cyfaill a nodir uchod ymyryd, a phrotestio yn erbyn hynny).

Unwaith eto bu dadlau mawr rhwng y beilïaid clochdar a'r ffarmwr gwledig ond gwybodus uchod, ond wedi i awr o amser fynd heibio, gollyngwyd y fuwch yn rhydd; a dyna, mewn gwirionedd, oedd ddechrau ar helynt go iawn i'r beilïaid.

Roedd y fuwch, fel ei pherchennog yn gwybod ei phethau, ac wrth weld dau ddyn diarth yn sefyll ar y buarth fe ysgwydodd ei chynffon, sythodd ei chlustiau, ac ar darawiad amrant, gwnaeth ei meddwl i fynu na welai'r beilïaid hi ond am ychydig iawn o amser!

Fel roedd yn digwydd y diwrnod yna, roedd John Williams y pen beili yn gwisgo dillad pur dyn, tra roedd dillad ei gynorthwywr, Samuel, yn bur llac amdanno! Felly roedd gan y ddau dipyn o anhawster symyd. Wedi i'r fuwch adael y buarth dechreuodd redeg yn ôl ac ymlaen o'r cae i'r afon. Mynai'r druanes fynd i bob cyfeiriad, ond y cyfeiriad yr ewyllysiai y beiliaid iddi fynd, sef gyda nhw i gyfeiriad Llanrwst. Wedi llawer o drafferth, cafwyd hi o'r diwedd at afon fawr y felin; aeth y fuwch heibio'r bont, ac i lawr gyda'r afon am bellter mawr.

Gweiddodd John Williams y pen beili at ei gynorthwywr "Cer ar ei hôl hi Sam". A bu raid i Sam yn ei ddillad llac anturio i'r dwr. Glaniodd y fuwch yn nôl yr Hafod, ond collodd Sam yn ôl yn arw obledig doedd ei ddillad dim llawer o help, heb sôn am y dwr yn ei esgidiau! Yn y man fe dorodd ei galon; collodd olwg ar y fuwch, a dychwelodd yn ôl at John Williams. Gwnaed gryn "ddamage" gan Sam ar wrychoedd Mr. Roberts, Ddôl y Geiri, yn ystod yr ymlid; ac mae'n debyg na fynnai Mr. Roberts i dacle fel hyn niweidio ei eiddo heb iddynt orfod talu am y galanasdra.

Yn eu hanobaith, dychwelodd y beilïaid i fuarth Ty'n y Ddôl, gan ddisgwyl y byddai i'r fuwch, cyn hir, ddyfod yn ôl i'w chynefin, ac y gallent hwythau, wedyn, ail gychwyn gyda hi. Gofynwyd iddynt "lle mae'r fuwch?"

"Mi redais ar ei hôl nes aeth i ffordd Llansannan" meddai Sam, gyda golwg dosturiol arno. Wedi gweld na ddychwelodd y fuwch ohonni ei hun, cychwynodd y ddau ar draws y cae i gyfeiriad Llansannan; ond wedi mynd yn lled bell i'r cae, gwaeddwyd o'r buarth am iddynt ddod yn ôl, gan na oddefid iddynt dresmesu yn y ffordd honno. Ufuddhawyd i'r archiad, a deuwyd yn ôl i'r buarth.

Erbyn hynny roedd y beili John Williams wedi colli pob rheolaeth ar ei dymer ac yn rhegi Sam yn ddychrynllyd am golli golwg ar y fuwch, a dychwelyd yn ôl i Lanrwst hebddi bu raid.

(Crynodeb o erthygl yn Baner ac Amserau Cymru, 10-4-1895)

Heulwen Ann Roberts